Canllawiau anifeiliaid hela gwyllt

Rheoliadau hylendid ar gyfer cyflenwi anifeiliaid hela i'w bwyta gan bobl.

Dogfen ganllaw anifeiliaid hela gwyllt

Mae'r canllawiau anifeiliaid hela gwyllt yn berthnasol i'r canlynol:

- busnesau bwyd
- helwyr anifeiliaid hela gwyllt a chyflenwi'r helgig hwnnw naill ai yn ei ffwr neu yn ei blu, neu fel symiau bychain o helgig gwyllt

Ceir gwybodaeth ychwanegol am wahanol sefyllfaoedd cyflenwi yn y canllawiau.

PWYSIG

Cyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn nogfennau canllaw'r ASB

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wrthi'n diweddaru'r holl gyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd (UE), er mwyn adlewyrchu'n gywir y gyfraith sydd bellach mewn grym, ym mhob dogfen ganllaw newydd neu ddiwygiedig a gyhoeddir ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben ddiwedd 2020. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd bob amser yn ymarferol i ni ddiweddaru'r holl gyfeiriadau at yr UE ar yr adeg yr ydym ni'n cyhoeddi canllawiau newydd neu ddiwygiedig.

Ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon, dylid darllen unrhyw gyfeiriadau at Reoliadau'r UE yn y canllawiau hyn i olygu cyfraith yr UE a ddargedwir (retained EU law). Gallwch gyrchu cyfraith yr UE a ddargedwir trwy Archif Ar-lein Ymadael â'r UE Llywodraeth EM . Dylid darllen y gyfraith hon ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE a wnaed i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n gywir yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig (DU). Ceir deddfwriaeth Ymadael â'r UE ar legislation.gov.uk. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o gyfraith hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid,

fel y rhestrir ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon, ac ni fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn berthnasol i Ogledd Iwerddon yn yr amgylchiadau hyn.

View Cyflenwi Anifeiliaid Hela Gwyllt i'w Bwyta gan Bobl as PDF (164.38 KB)

Gofynion cyfreithiol

Mae'r gofynion ar gyfer sicrhau diogelwch anifeiliaid hela gwyllt i'w bwyta gan bobl wedi eu nodi yn:

- Rheoliad a ddargedwir 852/2004 a Rheoliad a ddargedwir 853/2004 ar gyfer Cymru a Lloegr
- Rheoliad 852/2004 a Rheoliad 853/2004 ar gyfer Gogledd Iwerddon

Cig o anifeiliaid hela gwyllt

Yn y ddeddfwriaeth, diffinnir anifeiliaid hela gwyllt fel:

- carnolion gwyllt (*wild ungulates*)
- adar gwyllt

Carnolion gwyllt

Mae carnolion gwyllt yn famaliaid tir a gaiff eu hela i'w bwyta gan bobl.

Gall y rhain gynnwys:

- gwiwerod
- carnolion fel ceirw gwyllt
- baeddod gwyllt
- rhai poblogaethau defaid a geifr gwyllt
- cwningod ac ysgyfarnogod

Adar gwyllt

Adar gwyllt yw'r rheiny a gaiff eu hela i'w bwyta gan bobl. Enghraifft o hyn yw ffesant sydd wedi'i ddeor/magu mewn amgylchiadau wedi'u rheoli cyn ei ryddhau i'r gwyllt i'w hela.

Canllawiau anifeiliaid hela gwyllt (ffotograffau)

Mae'r canllawiau anifeiliaid hela gwyllt (ffotograffau) yn rhoi enghreifftiau o arfer da a gwael. Mae'r wybodaeth yn y ddogfen yn cwmpasu'r canlynol:

- croeshalogi
- dulliau cludo da a gwael
- dulliau storio gwael
- storio helgig mewn oergell
- bwtrïoedd helgig
- datganiadau unigolion cymwys
- anifeiliaid hela gwyllt yn eu plu, wedi'u pluo a pharod i'w coginio

View Canllawiau anifeiliaid hela gwyllt (ffotograffau) (Saesneg yn unig) as PDF (387.59 KB)

Datganiad unigolyn cymwys

Mae'n rhaid i unrhyw garcasau a gymerir i/a godir gan Sefydliad Trin Helgig Cymeradwy (AGHE) gael archwiliad cychwynnol gan unigolyn cymwys.

Mae'n rhaid atodi datganiad at y carcasau, waeth pwy a saethodd y carw.

Mae'n rhaid i'r datganiad hwn gynnwys gwybodaeth am canlynol:

- rhywogaeth
- rhyw
- dyddiad
- pryd a lle y'i saethwyd
- rhif adnabod

Hefyd, mae'n rhaid cynnwys datganiad er mwyn disgrifio unrhyw nodweddion a ganfuwyd, a gall y datganiad hefyd gynnwys:

- unrhyw ymddygiad anarferol
- nodweddion y carcas
- halogiad amgylcheddol

Mae'n rhaid i unigolyn cymwys lofnodi'r datganiad hwn.